**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Tachwedd 26ain 2014 am 7.15 yh yng Nghanolfan Gwytherin
Ymddiheuriadau:

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies, Ian W Griffith a'r Clerc.

33.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda.
33.2 COFNODION – cynigiodd Ifor Edwards ac eiliodd Ian Griffith a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Hydref 22ain 2014 yn gofnod cywir. Hefyd cynigiodd Ian Griffith ac eiliodd Tecwyn Evans a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Tachwedd 12fed yn gofnod cywir.
33.3 MATERION YN CODI
TO YR HEN EFAIL, LLANGERNYW- derbyniwyd ateb i'n llythyr gan Mrs A Mackeson Sandbach yn nodi ei bod wedi trefnu i rywun dynnu'r llechi oddi ar y to a'i wneud yn saff.

33.4 Y GYLLIDEB – gobeithir ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

33.5 RHEOLAU SEFYDLOG A RHEOLAU ARIANNOL Y CYNGOR – gobeithir trefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor yn fuan.

33.6 CYFLWYNIAD 'RHYDDID GWYBODAETH' A 'GWARCHOD DATA' – gobeithir trefnu cyfarfod i'w drafod yn fuan.

33.7 MYNWENT Y GARNEDD – adroddodd y Clerc y bydd coeden criafolen yn cael ei thocio yn fuan ym Mynwent Garnedd dan ofal 'Scottish Power'.

33.8 CANOL PENTREF GWYTHERIN – Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sirol yn nodi' nad yw'r Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn fodlon caniatau i'r Cyngor Cymuned ddymchwel y wal o flaen y safle bws. Mae'r wal yn creu safle diogel i blant chwarae ar hyn o bryd ac mae peryg i rhywun cael eu anafu os fydd y wal yn cael ei dymchwel a bod cerbydau yn gallu troi yn y man yma.'

33.9 MYNWENT GWYTHERIN – gan nad oedd gwaith wedi dechrau yn y Fynwent PENDERFYNWYD i'r Clerc ofyn i Mr Davies wneud y gwaith o fewn y mis neu i ofyn os oedd yn dymuno gwneud y gwaith.

33.10 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD cyfrannu at y canlynol:
Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015 - £30
Dawns i Bawb - £30 a gadael i Ysgol Bro Cernyw wybod ein bod yn cyfrannu
Clwb Ffermwyr Ifanc Llanrwst tuag at gostau'r Eisteddfod - £50
PENDERFYNWYD peidio cyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015 a Chanolfan Therapi Plant Bobath Cymru.
33.11 GRANT ADNEWYDDU PENTREFI – bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn eu cais am grant am dair mainc newydd i'r pentrefi, 8 cafn blodau a bin sbwriel (i Bandy Tudur).
PENDERFYNWYD gofyn i berchennog Siop y Llan os oedd a diddordeb mewn cymryd gofal o'r

Fainc 2000 tu allan i'r siop, i Gapel Pandy Tudur os oedd ganddynt awydd y fainc ar gyfer y Fynwent Newydd ac un Gwytherin i fynd i'r Ganolfan yno. Os bydd pawb yn cytuno bydd angen creu contract trosglwyddo i'w arwyddo. Gofynnwyd i Diane Roberts ac Ian Griffith fynd i olwg safle i'r fainc newydd yn Llangernyw.

33.12 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd llythyr ar ebost gan Gwmni Harlequin ynglŷn a gwella derbyniad ffôn i ardal Pennant, Gwytherin. Ni allent warantu y byddai codi'r mast yn uwch yn gwella'r signal ac felly roedd y datblygiad yn mynd yn ei flaen gan obeithio y byddai modd gwneud rhywbeth i wella'r sefyllfa os oedd problem yn y dyfodol.

33.13 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ac ADOLYGIAD O'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD – y Clerc i'w gyrru ymlaen i'r aelodau.

33.14 TYN Y CAEAU, LLANGERNYW – derbyniwyd llythyr gan Ms Antoinette Sandbach yn diolch i'r gymuned am gynorthwyo gyda'r broses o logi Tyn y Caeau i gwmni gwarchod plant ond erbyn hyn nid oedd y datblygiad yn mynd yn ei flaen a bod y tŷ fferm yn mynd ar y farchnad eto.

33.15 MATERION LLEOL
33.15.1 Angen peintio'r ffordd yn Pedair Croesffordd ger Tan y Castell – mae'n gyffordd beryglus a modurwyr yn anwybyddu'r marciau ffordd.
33.15.2 Angen brwsio ffordd o Wytherin am Lansannan i fyny allt Bryn Tan – dail yn tagu'r draeniau.
33.15.3 Coeden yn gwyro ger y ffens newydd ac yn dod yn raddol at y ffordd – Glanrafon, Llangernyw.
33.15.4 Polyn BT yn gwyro ger Hendre Ddu.
33.15.5 Crac yn y ffordd i mewn i Glan Collen o ochr Llanrwst a'r palmant gyferbyn a'r Graig yn cracio wrth y ffens.
33.15.6 Twll dwfn peryglus ger mynedfa Bryn yr Aur, Llangernyw.
33.15.7 Pont Rhydeden angen sylw.
33.15.8 Defnyddiau wedi eu gadael ar ôl a'r gwaith heb ei gwblhau ar bont Pandy Tudur.- ond y gwaith a wnaed yn daclus iawn.
33.15.9 Dŵr yn rhedeg ar hyd ffordd Hendre, Gwytherin.
33.15.10 Angen gofyn i Gyngor Conwy docio'r coed ar ochr dde wrth fynd i fyny allt Pandy Tudur – y Clerc wedi cael cyfarfod safle gyda'r swyddog.
33.15.11 Angen peintio llinellau parcio gwyn wrth giosg Pandy Tudur i rwystro cerbydau rhag parcio ar draws.
33.15.12 Cyhoeddwyd Cylchlythyr Rhif 23 y Cyngor yn ddiweddar.

33.16 BILIAU

| | |
|---|---|
| Hywel Evans – Cylchlythyr | £6 |
| Cyfieithu Cymunedol – cyfieithu mewn cyfarfod | £62.74 |
| Society of Local Council Clerks – ymaelodi | £88 |

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion Arwyddwyd ..E H Edwards..... Dyddiad 18/12/14................*

Community Council Meeting held Wednesday, November 26th 2014 at 7.15 pm at the Gwytherin Community Centre

Present: Elen H Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, D Gwynfor Davies, Ian W Griffith Clerk.

33.1 DECLARATION - was an opportunity for members to declare an interest in item on the Agenda.

33.2 MINUTES – proposed by Ifor Edwards seconded Ian Griffith and agreed that the minutes of 22nd October 2014 were a true record. Also Ian Griffith proposed Tecwyn Evans seconded and all agreed that the minutes of November 12 were a true record.

33.3 MATTERS ARISING
THE OLD SMITHY ROOF, LLANGERNYW - received an answer to our letter from Mrs A Mackeson Sandbach stating that she had arranged for someone to pull off the slate roof and make it safe.

33.4 BUDGET - hoped to discuss at the next meeting.

33.5 FINANCIAL STANDING ORDERS AND RULES OF THE COUNCIL - hoped to arrange a meeting of the sub-committee soon.

33.6 PRESENTATION 'FREEDOM OF INFORMATION' and 'Data Protection' - hoped to arrange a meeting to discuss soon.

33.7 The GARNEDD CEMETERY - The Clerk reported that the rowan tree will be pruned soon in Garnedd Cemetery by Scottish Power.

33.8 GWYTHERIN VILLAGE CENTRE - County Council responded by noting that 'the Department of Environment, Roads and Facilities is not willing to allow the demolition of the wall in front of the bus stop. The wall creates a secure site for children to play at the moment and there is a danger of someone being injured if the wall is demolished and vehicles are able to turn at this point. '

33.9 GWYTHERIN CEMETERY - as no work had begun at the Cemetery RESOLVED the Clerk to ask Mr Davies to do the work within the month or to ask if he wanted to do the work.

33.10 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED contribute to the following:
Montgomery and Borders 2015 National Eisteddfod - £ 30
Dance for All - £ 30 and let Ysgol Bro Cernyw know that we have contributed
Llanrwst YFC towards the Eisteddfod costs - £ 50
RESOLVED not contribute to the Urdd National Eisteddfod Caerphilly and District 2015 or Bobath Children's Therapy Centre Wales.

33.11 RENEWAL OF VILLAGES GRANT - the Council has been successful in its

application for a grant for a new bench for the three villages, 8 flower troughs and litter bin (to Pandy Tudur). RESOLVED to ask: the owner of Village Shop Llangernyw if he would be interested in taking care of the 2000 Bench outside the store, Pandy Tudur Chapel if they desire the bench for the New Cemetery and the bench in Gwytherin to go to the Community Centre there. If everyone agrees to contract the transfer will need to be signed. Diane Roberts and Ian Griffith were asked to go to look for new site for new bench in Llangernyw.

33.12 PEN Y FRON MAST, GWYTHERIN - a letter was received on email from Harlequin Company regarding improvement of phone reception in Pennant, Gwytherin area. They could not guarantee that raising the mast higher would improve the signal and so the development went ahead hoping that something could be done to improve the situation if there was a problem in the future.

33.13 PLANNING GUIDELINES and POLICE AND CRIME PLAN REVIEW - the Clerk to forward to members.

33.14 TYN Y CAEAU, LLANGERNYW – a letter received from Ms Antoinette Sandbach thanking the community for assisting in the process of letting the house to a child care company, but the development was not going ahead and the farmhouse goes back on the market.

33.15 LOCAL ISSUES
33.15.1 The junction near Tan y Castell needs to be painted white - it is a dangerous junction and motorists are ignoring road markings.
33.15.2 Road needs sweeping between Gwytherin and Llansannan up Bryn Tan hill - leaves are clogging drains.
33.15.3 tree leaning near the new fence and gradually come to the road - Glanrafon, Llangernyw.
33.15.4 BT pole leaning near Hendre Ddu.
33.15.5 Crack in the road near the Glan Collen entrance (Llanrwst side) and the pavement opposite Y Graig cracking near the fence.
33.15.6 Dangerous deep hole near the entrance to Bryn yr Aur, Llangernyw.
33.15.7 Rhydeden bridge needs attention.
33.15.8 Materials are left behind and the work is not completed on the bridge Pandy Tudur.- but the work done is very neat.
33.15.9 Water runs along the road Hendre, Gwytherin.
33.15.10 Need to ask Conwy council to prune the trees on the right side when going uphill in Pandy Tudur - The Clerk had met with the maintenance officer .
33.15.11White lines should be painted in the parking in Pandy Tudur near the kiosk to stop vehicles from taking up too much space.
33.15.12 The Council Newsletter No 23 was issued recently.
33.16 BILLS
Hywel Evans - Newsletter £ 6
Community Translation - translation in meeting £ 62.74
Society of Local Council Clerks - Membership £ 88

The meeting ended at 8.40 y.h.
Minutes were approved Signed .*Elen H Edwards*…….Date 18/12/14……